# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Llanfyllin,

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 1 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**

ISBN Digidol 978-1-78903-206-2

© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .......... 6

3. Yr hyn a ganfuom .......... 7

   Ansawdd profiad y claf .......... 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .......... 13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 19

4. Beth nesaf? .......... 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .......... 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 25

   Atodiad C – Cynllun gwella .......... 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Llanfyllin yn y Ganolfan Iechyd, y Stryd Fawr, Llanfyllin, Powys, SY22 5DG, o fewn Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 10 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill. Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Llanfyllin yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Roedd y practis yn gwneud y defnydd gorau o'r gofod cyfyngedig ac roedd yn lân a thaclus; roedd yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel.

Gwnaethom argymell bod y practis yn cynnal archwiliad rheoli heintiau yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol er mwyn sicrhau arfer da a nodi meysydd i'w gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda.

- Roedd y practis wedi ymrwymo i ddarparu safon dda o ofal i'w gleifion.
- Roedd y staff yn rhyngweithio'n broffesiynol, yn gyfeillgar ac yn gwrtais wrth gleifion.
- Roedd yr ardal glinigol yn lân ac yn daclus, roedd digon o gyfarpar ac roedd yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda.
- Roedd tystiolaeth bod rheolwr y practis yn rheoli ac yn arwain yn dda.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol.

- Arddangos gwybodaeth berthnasol i gleifion yn y mannau aros a/neu'r derbynfeydd, gan gynnwys rhestrau prisiau cyfredol y GIG a gwybodaeth ynglŷn â sut i wneud cwyn.
- Cyflwyno rhaglen ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol er mwyn sicrhau arfer da.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Llanfyllin yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Llanfyllin. Mae’r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Mae gan y practis dîm o staff sy’n cynnwys un prif ddeintydd a ddaeth yn gyfrifol am y practis yn 2016, un nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol o dan hyfforddiant ac un rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Nododd y cleifion hynny a wnaeth sylwadau eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis gennym i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 20 holiadur. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Ardderchog"*
>
> "Practis yn fach iawn ond yn gwneud y mwyaf o'r gofod yn y ffordd orau y gallant"
>
> *"Dw i ddim yn credu bod angen i'r practis wella unrhyw agwedd ar ei waith, mae pob peth, gan gynnwys yr holl driniaethau a chostau, yn cael ei esbonio'n glir. Gwasanaeth gwych."*

### Cadw'n iach

Roedd amrediad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth, posteri a gwybodaeth benodol ynghylch triniaethau a chyngor ataliol.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' yn cael eu harddangos wrth y fynedfa ac yn y man aros, yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth adeiladau di-fwg.

### Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Roedd y practis yn rhannu man aros cynllun agored gyda Chanolfan Iechyd Llanfyllin. Dywedodd staff wrthym fod modd cynnal sgwrs breifat gyda chlaf yn swyddfa'r dderbynfa pe bai angen, gyda'r ffenestr sy'n wynebu'r man aros ar gau. Gellid hefyd wneud galwadau ffôn yn y swyddfa, gan roi preifatrwydd i'r claf.

Roedd y man aros a'r ystafell driniaeth ar y llawr daear a oedd yn eu gwneud yn hygyrch i gleifion ag anawsterau symudedd, a gellid cau drws yr ystafell driniaeth, gan roi preifatrwydd ac urddas i'r claf wrth iddo dderbyn triniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch ei driniaeth ddeintyddol. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion hynny eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei hesbonio'n glir iddo cyn derbyn unrhyw driniaeth, a'i fod yn deall sut roedd cost ei driniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn ogystal â'r deunyddiau hybu iechyd deintyddol a oedd ar gael yn y man aros, roedd rhestr brisiau'n nodi costau triniaethau preifat. Nid oedd unrhyw restr brisiau'n cael ei harddangos yn dangos costau triniaethau'r GIG. Roedd y poster blaenorol wedi cael ei dynnu ar ôl i'r prisiau newid. Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn derbyn triniaeth y GIG, gwnaethom argymell bod y practis yn dangos gwybodaeth gyffredinol am holl ffioedd deintyddol perthnasol y GIG.

Canfuom fod gwybodaeth ysgrifenedig ac electronig am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel i sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei hamddiffyn.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau sy'n nodi costau triniaeth ddeintyddol y GIG.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn eu hystyried eu hunain y siaradwyr Cymraeg: Dywedodd chwarter y cleifion eu bod yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg, a dywedodd pob un o'r rhain nad oedd byth yn gallu siarad â staff yn Gymraeg pan oedd yn dymuno. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg a gwblhaodd holiadur fod modd iddynt siarad â staff yn yr iaith o'u dewis, gydag un claf yn dweud nad oedd byth yn gallu gwneud hyn.

Roedd y nyrs ddeintyddol wedi cael hyfforddiant a oedd yn ei galluogi i gyfathrebu gan ddefnyddio iaith arwyddion.

Gwnaethom arsylwi ar staff yn bod yn gwrtais wrth siarad â chleifion wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur na fyddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt.

Canfuom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn rhoi gwybod i'r cleifion pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr.

Gwelsom fod manylion y deintydd a oedd yn ymarfer ac oriau agor y ddeintyddfa wedi'u harddangos y tu allan. Er bod neges peiriant ateb yn hysbysu cleifion ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw i gael triniaeth y tu allan i oriau, nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei harddangos yn y practis. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am hyn a aeth ati ar unwaith i unioni hyn drwy greu poster a'i osod yn y dderbynfa.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am ei hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.

Roedd y brif fynedfa, y man aros a’r unig ystafell driniaeth ar y llawr daear ac roeddent yn hygyrch i gleifion a oedd ag anawsterau symudedd.

Roedd gan gleifion fynediad at gyfleusterau toiled y ganolfan feddygol, gan gynnwys toiled anabl neillryw.

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym nad oedd yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau mae'n eu derbyn yn y practis deintyddol.

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[1], roedd gan y practis bolisi cwyno mewn perthynas â thriniaeth breifat, ond nid oedd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer swyddfa briodol yr awdurdod cofrestru, sef Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nid oedd unrhyw bolisi yn ymwneud â thriniaeth ddeintyddol y GIG. Gwnaethom hefyd nodi nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion ynghylch sut i fynegi pryder (cwyn) am driniaeth breifat, yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, [2]nac ynghylch triniaethau'r GIG – 'Gweithio i Wella' GIG Cymru.[3]

Gwnaethom argymell bod y practis yn diweddaru ei bolisi cwynion a gweithdrefnau er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â phroses gwynion y GIG. Gwnaethom hefyd argymell bod y practis yn arddangos ei bolisi cwynion a gweithdrefnau ynghylch triniaethau deintyddol preifat a'r GIG, yn y dderbynfa/man aros, yn ogystal â phosteri a thaflenni gwybodaeth 'Gweithio i Wella'.

Gwnaeth 16 o'r 20 claf a gwblhaodd holiadur gadarnhau y gofynnid iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

---

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/part/VI/made

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

[3] 'Gweithio i Wella' yw'r broses integredig ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

Roedd y practis yn annog adborth gan gleifion, a gwnaethom nodi bod blwch sylwadau a phad ysgrifennu yn y man aros. Hyd yma, nid oedd unrhyw sylwadau ysgrifenedig wedi'u derbyn. Byddai unrhyw sylwadau ar lafar a dderbyniwyd yn cael eu cofnodi yn ffeil y claf. Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion yn ysgrifenedig nac ar lafar. Nid ydym yn gwybod a allai hyn fod oherwydd diffyg gwybodaeth i gleifion ynglŷn â sut i wneud cwyn. Gwnaethom gynghori'r practis i gofnodi unrhyw adborth mewn ffeil ar wahân, ar y cyd ag unrhyw gwynion y gallent eu derbyn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae’r practis i ddiweddaru ei bolisi a gweithdrefnau cwynion er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â phroses gwynion y GIG.

Mae’r practis i arddangos ei bolisi a gweithdrefnau cwynion ynghylch triniaethau deintyddol preifat a'r GIG, yn y dderbynfa/man aros, yn ogystal â phosteri a thaflenni gwybodaeth ‘Gweithio i Wella’.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion.

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn daclus, yn lân ac wedi'i threfnu'n dda, ond roedd ôl traul i'r llawr, a bydd angen rhoi sylw i fynd i'r afael â hyn.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel.

Roedd gan y practis bolisïau diogelu priodol ar waith, ac roedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Lleolir y practis yng Nghanolfan Feddygol Llanfyllin. Er bod ganddo ei ystafell driniaeth a'i dderbynfa ei hun, mae'n rhannu'r man aros a chyfleusterau i staff â'r ganolfan iechyd. Yn ôl pob golwg roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan, er y gwelsom ychydig iawn o ôl traul i'r llawr yn yr ystafell driniaeth. Gwnaethom gynghori'r prif ddeintydd i ystyried cael y llawr wedi'i selio eto. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis, yn eu barn nhw yn lân iawn.

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y ganolfan iechyd, a gwnaethom nodi bod y gwaith o'u gwasanaethu wedi'i gyflawni yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Gwnaethom hefyd nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u

cynnal yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y ganolfan iechyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r larwm tân a'r cyfarpar cysylltiedig, ond nid oeddent yn gallu rhoi copi o'r dogfennau perthnasol i reolwr y practis cyn yr arolygiad. Argymhellwn fod rheolwr y practis yn gwneud cais i weld y dystysgrif cynnal a chadw a/neu yn gofyn am gopi ar gyfer cofnodion y practis, ac yn rhoi sicrwydd bod y ganolfan feddygol wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod staff a chleifion yn ddiogel.

Gwelsom fod contract ar waith ar gyfer cludo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Roedd gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel, y tu ôl i'r ganolfan iechyd, wrth iddo aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn cael ei gasglu gyda gwastraff y ganolfan iechyd.

Gwelsom fod gan y practis lyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), ond nid oedd hwn yn cynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys yn y llyfr hwn. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith a gwnaethom nodi bod y poster iechyd a diogelwch, ynghyd â'r wybodaeth berthnasol yn swyddfa'r dderbynfa.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod rheolwr y practis yn gwneud cais i weld y dystysgrif cynnal a chadw ar gyfer y larwm tân a'r diffoddwyr tân a/neu yn gofyn am gopi ar gyfer cofnodion y practis.

Mae'r practis i ddiweddaru'r llyfr 'Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus' (RIDDOR), i gynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ardal benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol

Iechyd Cymru 01-05.[4] Er bod prinder lle, roedd yr ardal ddadheintio'n lân ac wedi'i threfnu'n dda. Gwnaethom nodi bod yr ardaloedd glân a brwnt yn cael eu dynodi'n dda, a'u bod ar wahân ac i ffwrdd o'r gadair ddeintyddol. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro, a chyfarpar diogelu llygaid, ac roeddent yn eu defnyddio. Roedd offer dadheintio yn cael eu storio'n briodol.

Gwnaethom nodi bod tystysgrifau arolygu cynnal a chadw ar gael ar gyfer yr offer dadheintio. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi priodol ar gyfer gwirio'r cyfarpar dadheintio yn cael eu cynnal, ac roedd polisi dadheintio ar waith. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau yn eu ffeiliau er mwyn cadarnhau bod eu hyfforddiant ar reoli heintiau yn gyfredol.

Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau rheolaidd o ran rheoli heintiau, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Argymhellwn fod y practis yn cynnal archwiliad, gan ddefnyddio offeryn archwilio Deoniaeth Cymru, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan gofnodi unrhyw ganlyniadau/casgliadau a datblygu cynllun gweithredu os yw'n briodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'r practis i gynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Mae gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion, ac roedd pob aelod o staff (ar wahân i'r nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant) wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR). Y prif ddeintydd oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig. Mae angen i'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob 12 mis.

[4] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Gwelsom fod cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu storio'n briodol, ac y byddant ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo). Roedd tystiolaeth bod y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd hyn yn unol â'r safonau a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU.[5]

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'r practis i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob 12 mis.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu llesiant plant ac oedolion agored i niwed, ac roeddent yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer holl dimau diogelu priodol yr awdurdod lleol. Roedd y wybodaeth ynghylch diogelu plant yn cael ei dangos mewn siart lift yn swyddfa'r dderbynfa. Gwelsom dystysgrifau'n cadarnhau bod yr holl staff, ar wahân i'r nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, wedi cael hyfforddiant priodol.

Gwelsom dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar gyfer pob aelod o staff, a dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn-gyflogi'n cael eu cynnal ar unrhyw aelod newydd o staff.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion.

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafell driniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelu cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom fod yr ystafell driniaeth a'r offer yn lân ac mewn cyflwr da. Er ei bod yn ystafell driniaeth fach, roedd wedi'i chynllunio a'i threfnu er mwyn sicrhau bod yr offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel.

Gwelsom ddogfennau'n dangos bod y peiriant pelydr-X yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd, a bod y Ffeil Amddiffyn rhag Ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol. Roedd y prif ddeintydd, a oedd yn gyfrifol am gymryd y sganiau pelydr-X, wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol[6] a'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Roedd yr holl gyfarpar dadheintio'n cael ei wirio'n rheolaidd ac roedd llyfrau cofnodi'n cael eu cynnal a'u cadw.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Argymhellwn fod y practis yn rhoi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd delweddau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

[6] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'r practis i roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd delweddau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gan y practis gyfuniad o gofnodion papur ac electronig, a gwnaethom nodi bod y rhain yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd, ac roedd y ffeiliau papur yn cael eu storio mewn cypyrddau dan glo yn swyddfa'r dderbynfa. Roedd y modd y caniateid mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel a gochelgar.

Roedd gan y practis nifer o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi diogelu data, a pholisi llywodraethu gwybodaeth. Roedd polisi cyfrinachedd y practis ynghlwm wrth gontractau cyflogaeth y.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a siarad â'r ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion o ansawdd da, ac yn dangos bod y cleifion yn derbyn gofal da. Roedd y cofnodion yn dangos bod gofal a thriniaeth wedi cael eu cynllunio er mwyn hyrwyddo diogelwch a lles cleifion. Roedd cynlluniau triniaeth yn cael eu rhoi i bob claf eu llofnodi, ac roedd hanes meddygol y cleifion yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru gan y prif ddeintydd yn ystod pob ymweliad.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan reolwr y practis, a oedd hefyd yn goruchwylio'r dderbynfa.

Canfuom fod gan y practis systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y practis a'r staff yn derbyn cefnogaeth, a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sy'n berchen ar Bractis Deintyddol Llanfyllin, ac mae hefyd yn gweithio yno'n llawn amser. Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd a dyletswyddau'r dderbynfa yn cael eu cyflawni gan reolwr y practis.

Canfuom fod y practis wedi'i drefnu'n dda, a bod y gwaith o gadw cofnodion yn dda. Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom nodi bod dyddiadau arolygu ar rai o'r dogfennau polisi a gweithdrefnau, ond nid y cyfan, ac roedd rhai ohonynt, ond nid y cyfan, wedi'u llofnodi gan y staff. Er mwyn bod yn gyson, rydym yn argymell rhoi dyddiadau cyhoeddi ac adolygu ar yr holl ddogfennau polisi, gan sicrhau bod pob un ohonynt yn gyfredol a bod staff yn ffyddiog bod ganddynt fynediad at y wybodaeth fwyaf perthnasol/cyfredol. Rydym hefyd yn argymell bod staff yn llofnodi pob dogfen er mwyn cadarnhau gwybodaeth a dealltwriaeth.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol perthnasol wedi'u cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith. Mae'r prif ddeintydd hefyd yn darparu triniaethau deintyddol preifat, a gwelsom

fod ei dystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn cadarnhau bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn hapus wrth gyflawni eu swyddi, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus wrth godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis neu'r prif ddeintydd.

Roedd contractau cyflogaeth yn ffeiliau pob aelod o staff, gan sicrhau bod gan yr holl bartïon ddealltwriaeth eglur o'r hyn a ddisgwylir ohonynt yn y gweithle. Roedd yr holl gontractau'n cynnwys polisïau staff priodol e.e. absenoldeb oherwydd salwch.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis raglen ymsefydlu, a oedd yn cynnwys y prosesau ar gyfer nifer o dasgau yr oedd disgwyl i staff eu cyflawni. Ar hyn o bryd, nid oes prosesau arfarnu staff ar waith, ond mae rheolwr y practis yn bwriadu unioni hyn. Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer holl staff y practis.

Gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd practis ffurfiol, gan gynnwys tystiolaeth o ddysgu, a oedd yn cael eu cefnogi gan gofnodion.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Mae'r Rheoliadau ar gyfer Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff. Gwnaethom nodi bod angen adnewyddu gwiriad y prif ddeintydd – roedd ei ddyddiad newydd ddod i ben ac argymhellwn fod cais newydd yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer holl staff y practis.

Mae angen i'r practis  adnewyddu'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y prif ddeintydd.

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf deuddeg wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Nid oedd rhif cyswllt ar gyfer cael triniaeth y tu allan i oriau yn cael ei arddangos yn y practis. | Gallai hyn effeithio ar brydlondeb claf yn cael mynediad at driniaeth y tu allan i oriau. | Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am y mater hwn yn ystod yr arolygiad. | Pan wnaethom hysbysu rheolwr y practis am y mater hwn, aeth ati ar unwaith i unioni mater drwy greu poster a'i osod yn y dderbynfa |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanfyllin

## Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

### Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Llanfyllin

### Dyddiad yr arolygiad: 10 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau sy'n nodi costau triniaeth ddeintyddol y GIG. | 4.2 Gwybodaeth Cleifion | Mae rhestr brisiau newydd wedi'i diweddaru wedi'i gosod yn yr ystafell driniaeth ac yn y man aros; anfonwyd hon atom gan Wayne Casey o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.<br><br>Ers yr arolygiad, mae’r rhestr brisiau wedi cael ei hamlygu yn yr ystafell driniaeth, ac mae'n weladwy iawn yn y man aros. Rwyf hefyd wedi crynhoi'r rhestr er mwyn i gleifion gael un i fynd â hi adref. | Sheilagh Lewis | Cymerwyd camau gweithredu yn syth ar ôl yr arolygiad ar 10 Hydref gan reolwr y practis, Sheilagh Lewis. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae’r practis i ddiweddaru ei bolisi a gweithdrefnau cwynion er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC a chynnwys gwybodaeth ynglŷn â phroses gwynion y GIG. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad arolygu, ffoniais Wayne Casey o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, a anfonodd e-bost ataf gyda pholisi cyfredol sydd bellach yn cael ei arddangos yn y man aros ac yn yr ystafell driniaeth. Roedd hyn hefyd yn cynnwys ffurflen gwyno i'n cleifion sy'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol – mae'r rhain bellach ar gael yn y man aros. | Sheilagh Lewis | Cefais gadarnhad ar 20 Rhagfyr 2017 y byddai'n e-bostio'r ffurflenni ataf. Mae wedi gwneud hyn. |
| Mae’r practis i arddangos ei bolisi a gweithdrefnau cwynion, ar gyfer triniaethau deintyddol preifat a'r GIG, yn y dderbynfa/man aros, yn ogystal â phosteri a thaflenni gwybodaeth ‘Gweithio i Wella.’ | | Gofynnais am y polisi cwynion gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, sydd bellach yn cael arddangos yn y man aros. | Sheilagh Lewis | Cwblhawyd hyn a'i arddangos ar 20 Rhagfyr 2017. |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Argymhellwn fod rheolwr y practis yn gwneud cais i weld y dystysgrif cynnal a chadw a/neu yn gofyn am gopi ar gyfer cofnodion y practis. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Oherwydd ein bod ni'n llogi'r ystafell gan y Ganolfan Feddygol, gofynnais am gopi o'r dystysgrif tân gan Reolwr y Practis cyn yr arolygiad. Yn anffodus, nid oedd ar gael mewn pryd ar gyfer yr arolygiad. Wedyn es i i weld Mrs Susan Lewis | Sheilagh Lewis | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | (rheolwr y practis) a dangosais yr adroddiad arolygu iddi. Rhoddwyd y dystysgrif i ni o fewn ychydig o ddiwrnodau. | | |
| Mae’r practis i ddiweddaru'r llyfr ‘Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus’ (RIDDOR), i gynnwys manylion cyswllt a phrotocolau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. | | Mae llyfr iechyd a diogelwch newydd ac ynddo Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR) wedi'i arddangos yn y brif swyddfa. | Sheilagh Lewis | Cafodd hyn ei gwblhau ychydig o ddiwrnodau ar ôl yr arolygiad. |
| Mae’r practis i gynnal archwiliadau rheoli heintiau rheolaidd, yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Fel yr argymhellwyd, rydym wedi bod yn cynnal archwiliadau ers mis Tachwedd 2017. Cafodd y rhain eu lawrlwytho o'r offeryn archwilio ar wefan Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. | Mr Traian Ichim<br>Susan Evans | Tachwedd 2017 |
| Mae’r practis i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd bob 12 mis. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | Mae tystysgrifau dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol gan yr holl staff ar hyn o bryd.<br>Ar adeg yr arolygiad roedd gennym nyrs dan hyfforddiant heb dystysgrif dadebru cardio-pwlmonaidd. Nid yw'r nyrs bellach yn gweithio gyda ni. | Sheilagh Lewis | Hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd wedi'i drefnu ar gyfer mis Awst 2018. |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Argymhellwn fod y practis yn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion. | 2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl | Mae’r holl dystysgrifau amddiffyn/diogelu oedolion yn gyfredol a dyddiedig 24 Medi 2017. | Sheilagh Lewis | Medi 2018 |
| Mae’r practis i roi rhaglen ar waith ar gyfer cynnal amrediad eang o archwiliadau clinigol, gan gynnwys sicrhau ansawdd delweddau, cofnodion meddygol ac adolygiadau cymheiriaid, gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Gweithredwyd gweithdrefnau –<br>gan gynnwys archwilio'r delweddau pelydr-X<br>Archwilio cofnodion meddygol, yr awtoclaf ac adroddiadau dadheintio.<br>Cynhelir cyfarfodydd practis er mwyn codi unrhyw broblem neu bryder – yn ogystal â syniadau ar gyfer gwella. | Susan Evans<br>Traian Ichim<br>Sheilagh Lewis | Cafodd yr archwiliadau hyn, y gwnaethom eu dechrau yn ystod archwiliadau mis Tachwedd o’r ystafell driniaeth, eu gweithredu gan Susan Evans a Traian Ichim. |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Argymhellwn fod y practis yn cyflwyno proses arfarnu ffurfiol ar gyfer holl staff y practis. | 7.1 Gweithlu | Mae arfarniadau wedi cael eu gweithredu ar gyfer pob aelod o staff, ac maent wedi bod yn llwyddiannus iawn. | Sheilagh Lewis<br>Traian Ichim | Fel yr argymhellwyd, rydym wedi |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | bod yn cynnal arfarniadau ers mis Tachwedd 2017. |
| Mae angen i'r practis adnewyddu'r dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y prif ddeintydd. | | Mae ceisiadau ar gyfer tystysgrifau uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cyflwyno. | Traian Ichim<br>Sheilagh Lewis<br>Susan Evans | Chwefror 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Traian Ichim**

**Swydd:** **Prif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **3 Ionawr 2018**